# CAIS AM DRWYDDED YRRU AR GYFER CERBYD HACNI

**Os ydych yn dymuno gwneud cais am Drwydded ar gyfer Cerbyd Hacni, rhaid i'r cerbyd gydymffurfio ag amodau trwydded y Cyngor ar gyfer Cerbydau Hacni. Ystyrir cerbydau trydan hefyd.**

**Sylwer: - Rhaid i'r cerbyd fod o dan 5 oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf. Os yw'r cerbyd yn Gerbyd Hacni Pwrpasol neu'n hygyrch i gadeiriau olwyn, yna ni ddylai'r cerbyd fod yn fwy nag 8 oed o'r dyddiad cofrestru cyntaf.**

**Rhaid anfon y canlynol gyda'r cais:**

**(a) Opsiwn A: Ffi trwydded cerbyd o £194.00 (na ellir ei ad-dalu)**
**Mae hyn yn cynnwys darparu:**

- **Y prawf mecanyddol cyntaf a chost un ailbrawf dilynol.**
- **Plât trwydded y cerbyd**
- **Sticeri Drws a Sticeri arwydd to**

**Opsiwn B: Ffi trwydded cerbyd o £204.00 (na ellir ei ad-dalu)**
**Mae hyn yn cynnwys darparu:**

- **MOT**
- **Y prawf mecanyddol cyntaf a chost un ailbrawf dilynol.**
- **Plât trwydded y cerbyd**
- **Sticeri Drws a Sticeri arwydd to**

**SYLWER: Codir tâl am sticeri adnabod newydd a phlât trwydded cerbyd.**

**(b) Tystysgrif yswiriant cerbyd cyfredol**

**(c) Tystysgrif MOT ddilys**

**(d) Dogfen Gofrestru'r Car**

**Gellir cyflwyno'r cais naill ai yn un o Ganolfannau Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn: - 41 Stryd y Cei, Rhydaman, SA18 3BS- Uned A, Rhodfa'r Santes Catrin, Caerfyrddin, SA31 1GA- 36 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3TR Neu drwy'r post: Yr Adran Cymunedau, Cyngor Sir Caerfyrddin, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE**

---

Fel ymgeisydd am Drwydded Cerbyd Hacni tynnir eich sylw at y canlynol:
Pan fydd cerbyd sydd wedi'i drwyddedu gan Gyngor Sir Caerfyrddin fel Cerbyd Hacni yn cael ei ddefnyddio, rhaid i'r sawl sy'n gyrru feddu ar drwydded yrru ddeuol gyfredol sydd hefyd wedi'i rhoi gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio lle mae cerbydau (boed yn Gerbydau Hacni, Cerbydau Hurio Preifat neu gyfuniad o'r ddau) yn cael eu gweithredu o eiddo domestig, neu lle mae ystafell aros ar waith, neu lle mae safle'n gweithredu fel man casglu i yrwyr a/neu deithwyr.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Mae sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir yn bwysig iawn o ran darparu ein gwasanaethau a chadw hyder y cyhoedd.

Data personol yw unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson, y mae modd adnabod pwy ydyw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o’r wybodaeth. Defnyddir y termau 'gwybodaeth' a 'data personol' drwy'r hysbysiad preifatrwydd a'r un yw eu hystyr.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn trin gwybodaeth bersonol yn gywir, rydym yn ceisio cydymffurfio'n llwyr â gofynion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. I weld yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Trwyddedu, ewch i: https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/cyngor-a-democratiaeth/diogelu-data/hysbysiadau-preifatrwydd/trwyddedu/

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan y Cyngor neu cysylltwch â'r adran hon

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Gyngor Sir Caerfyrddin rannu data ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i greu cronfa ddata o gerbydau trwyddedig i gefnogi gweithrediad parthau aer glân lle codir tâl gan awdurdodau lleol neu gynlluniau ansawdd aer eraill. Gweler **https://www.gov.uk/government/publications/air-quality-taxis-and-private-hire-vehicles-phvs-database-guidance** i gael rhagor o wybodaeth.

# GWYBODAETH AM DRWYDDED CERBYD HACNI/HURIO PREIFAT

## DARLLENWCH Y CANLYNOL CYN MYND Â'CH CERBYD I GAEL EI BROFI:-

**1)** Rhaid i'r cerbyd fod o fath addas ac mewn cyflwr da, a ddylai gyd-fynd â chymeradwyaeth y Swyddog Awdurdodedig, Cwnstabl yr Heddlu a'r Archwiliwr Cerbydau.

**2)** Ni roddir trwydded cerbyd hyd nes y telir y ffi briodol. Pan delir â siec, a gaiff ei wrthod wedyn, bydd unrhyw drwydded yn cael ei dirymu.

**3)** Rhoddir gwybod i ymgeiswyr y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwneud pob ymdrech i brofi'r cerbydau ar yr amser y gofynnir amdano. Fodd bynnag, rhaid nodi nad oes sicrwydd y bydd prawf ar gael ar fyr rybudd.

**4)** Gofynnir i chi fod yn brydlon ar gyfer y prawf. Os na allwch fod yn bresennol **RHAID** i chi gysylltu â'r Swyddfa Drwyddedu gan roi cymaint o rybudd â phosibl. Os byddwch yn methu â mynychu ar yr amser a neilltuwyd heb roi gwybod ymlaen llaw, bydd y prawf cerbyd yn cael ei fethu.

**5)** Bydd y cerbyd yn cael ei brofi dim ond os gallwch ddangos derbynneb ddilys a M.O.T.

**6)** Ar gais cyntaf, bydd Cerbydau nad ydynt yn gallu bodloni holl baramedrau prawf y Cyngor yn **METHU'r** prawf ac **NI ELLIR** eu defnyddio fel Cerbyd Hacni/Hurio Preifat.

**7)** Gellir rhoi Hysbysiad **YN ATAL** y drwydded i gerbyd trwyddedig, **SY'N METHU'**r prawf.

**8)** **RHAID** gwneud trefniadau i'r cerbyd gael ei ailbrofi drwy'r Adain Drwyddedu.

**9)** Bydd trwyddedau cerbyd yn parhau mewn grym am gyfnod o flwyddyn ar y mwyaf. Dyddiad dod i ben y Drwydded fydd diwrnod olaf y mis cyn y mis cyhoeddi.

**10)** Rhaid dychwelyd yr holl sticeri adnabod a phlatiau cerbyd i'r Cyngor pan ddaw trwydded y cerbyd i ben, pan gaiff ei hatal dros dro neu ei dirymu.

**11)** Mae'r ffi ar gyfer gwneud cais yn cynnwys cost un archwiliad cerbyd cychwynnol yn unig a chost un ail-brawf os oes angen. Os bydd y cerbyd yn methu ailarchwiliad, rhaid cyflwyno ffi ychwanegol am ail-brawf i'r Cyngor. Os yw'r ail-brawf ychwanegol cyn pen 14 diwrnod ar ôl yr ail fethiant, y ffi yw £26.00. Os nad yw'r ail-brawf ychwanegol cyn pen 14 diwrnod, bydd angen talu'r ffi prawf llawn, sef £65.00.

**12)** Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno am y prawf cerbyd neu'r broses ymgeisio/meini prawf, yna cyflwynwch y gŵyn yn ysgrifenedig i:

Adran Cymunedau,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
3 Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1QE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976, ADRAN 65**

## TABL O'R PRISIAU UCHAF Y GALL CERBYD HACNI EU CODI

Dylai unrhyw berchennog sydd am gael rhagor o wybodaeth neu eglurhad ynghylch yr uchod gysylltu â Swyddogion Trwyddedu'r Adran drwy ffonio 01267 234 567.

| | **Tariff 1**<br><br>**6am -8pm** | **Tariff 2**<br><br>**8pm tan 12 hanner nos** | **Tariff 3**<br>**12 hanner nos -6am** |
|---|---|---|---|
| Am y filltir gyntaf neu ran o'r pellter hwnnw | £4.50 | £4.70 | £5.15 |
| Am bob un rhan o ddeg o filltir neu ran o'r pellter hwnnw, ar gyfer milltiroedd ychwanegol | £0.25 | £0.30 | £0.35 |
| Amser aros (y funud) | £0.30 | £0.30 | £0.40 |

Gweithredir gordal Tariff 2 ar y mesurydd ar y Sul, Gwyliau Cyhoeddus a Gwyliau Banc a phob nos ar ôl 8.00 pm tan 12 hanner nos.

Gweithredir gordal Tariff 3 ar y mesurydd o 12 hanner nos tan 6.00am

Sylwer y bydd yn rhaid i Weithredwyr sy'n dymuno cychwyn gweithredu'r cyfnod prisiau Tariff 2 yn hwyrach na 8.00 p.m a chychwyn gweithredu Tariff 3 yn hwyrach na 12 hanner nos ddangos y wybodaeth hon ar eu tabl prisiau ym mhob cerbyd.

| Taliadau ychwanegol (Dewisol) | |
|---|---|
| Ffi am ddifwyno'r cerbyd. | £120.00 Uchafswm Tâl |
| Ffi Archebu (os yw'r daith yn cychwyn mwy na 4 milltir o ganolfan y gweithredwr) | £ 5.00 |
| Cerbydau sy'n cludo 5-8 teithiwr. Am bob teithiwr, os bydd MWY NA PHEDWAR teithiwr | £1.00 yr un |

Bydd y pris Tariff 1 ar y mesurydd yn cael ei ddyblu ar gyfer hurio sy'n cychwyn Ddydd Nadolig a Dydd Calan.

Ebrill 2025

## CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II

## DEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847
## CAIS AM DRWYDDED YRRU AR GYFER CERBYD HACNI

AT DDEFNYDD Y SWYDDFA YN UNIG

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dyddiad Cael y Cais: | | | |
| Dogfen Gofrestru wedi dod i law | | Oedran y Cerbyd | blwyddyn mis |
| Dogfen Yswiriant wedi dod i law | | Cerbyd a Adeiladwyd i'r Pwrpas | Ydy/Nac ydy |
| Tystysgrif MOT wedi dod i law | | Mynediad i Gadair Olwyn | Ydy/Nac ydy |
| Derbyniwyd y Ffi | Y Swm £ Arian parod/Siec (dileer fel sy'n briodol)<br>Rhif Derbynneb. Arall: (Rhowch fanylion) | | |

**SYLWER: Os bydd unrhyw berson yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid neu'n hepgor unrhyw fanylyn perthnasol wrth roi'r wybodaeth ganlynol, bydd, o dan Adran 57 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 Rhan II, yn euog o drosedd.**

**DEFNYDDIWCH BRIFLYTHRENNAU**

1. Ymgeisydd

a) Enw Llawn ……………………………………………………………………………………………

b) Cyfeiriad Parhaol ………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………………………

E-bost : …………………………………………………………………………………………………..

c) Dyddiad Geni:_________________ d) Rhif Ffôn ……………………..

e) Enw'r Cwmni …………………………………………………………………………………

2. Cerbyd

a) Gwneuthuriad a Model y Cerbyd ………………………………………………………………………..

b) Rhif Cofrestru …………………………… c) Maint yr Injan …………………………………

d) Nifer y Drysau …………………………. e) Lliw ……………………………………………

f) Dyddiad cofrestru cyntaf ………………………

g) A yw'r cerbyd yn Gerbyd Hacni a Grëwyd i'r Pwrpas **Ydy/Nac ydy**

h) A oes lle yn y cerbyd i Gadeiriau Olwyn **Oes/Nac oes** : A oes ganddo offer codi **Oes/Nac oes**

Os oes lle yn y cerbyd i gadeiriau olwyn, rhowch y rhif ffôn cyswllt i archebu'r cerbyd hwn, bydd y rhif cyswllt hwn ar Wefan y Cyngor: …………………………………………

i) Adeiladwyd i gludo …………………………… o bobl (ac eithrio gyrrwr )

j) 21. A oes gan y cerbyd radio dwy ffordd, ffôn car, galwr neu ddyfais debyg (nodwch os gwelwch yn dda)
……………………………………………………………………………………………………………

k) Ai chi yw unig berchennog y cerbyd **IE/NA** (Dileer fel sy'n briodol)

Os **Na**, rhowch enw(au) a chyfeiriad/au pob perchennog, neu berchennog rhannol sy'n ymwneud â chadw, defnyddio neu osod i hurio eich cerbyd.

Enw(au) ……………………………………………………………………………………………..

Cyfeiriad(au) ……………………………………………………………………………………….

Dyddiad Geni: Rhif ffôn ……………………………………………..

l) Ble'r ydych yn bwriadu defnyddio'r cerbyd at ddibenion gyrru tacsi
……………………………………………

m) A ydych yn bwriadu i'r cerbyd gael ei ddefnyddio (un ai'n llwyr neu'n bennaf) ar gyfer gwaith Hurio Preifat y tu allan i'r Sir ……………………………………………………………………………….

n) A ydych chi neu unrhyw ran-berchennog neu unrhyw bartneriaeth yr ydych, neu yr oeddech, yn aelod ohoni, neu gwmni yr ydych, neu yr oeddech yn Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd arni, erioed wedi'ch dyfarnu'n euog o unrhyw drosedd neu unrhyw drosedd yn ymwneud â Deddfau a Rheoliadau Traffig Ffyrdd.

**YDW/NAC YDW** (dileer fel sy'n briodol) Os '**YDW**', rhowch fanylion isod.

| Dyddiad | Trosedd | Math o Lys a Lleoliad | Dedfryd neu Orchymyn y Llys |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Wrth ateb y cwestiwn hwn tynnir eich sylw at Ddeddf Adsefydlu Troseddau 1974**

o) Enw a Chyfeiriad y Cwmni Yswiriant y mae gennych Bolisi Yswiriant llawn gydag ef ar gyfer Hurio Cyhoeddus, a gyhoeddwyd yn unol â Rhan VI o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988 ac sy'n cydymffurfio â hi.

Enw ………………………………………………………………………………………………

Cyfeiriad ……………………………………………………………………………………………

Rhif Ffôn …………………………………… Y Dyddiad Dod i Ben ……………………………….

Rhif Polisi Yswiriant ………………………………………………………………………..

Amodau Polisi Arbennig ……………………………………………………………………….

Brocer Yswiriant ……………………………………………………………………………….

………………………………………………………… Rhif Ffôn ………………………………..

3. **Rwy'n datgan bod y wybodaeth a roddwyd gennyf yn y cais hwn yn gywir ym mhob agwedd. Os rhoddir trwydded, rwy'n datgan ymhellach y byddaf yn cydymffurfio â'r Amodau a'r Canllawiau sy'n rhestru darpariaethau statudol.**

Llofnodwyd Dyddiad ……………………………………….

**Mae dyletswydd arnom, fel corff cyhoeddus, i ddiogelu'r cyllid cyhoeddus a weinyddir gennym ac i'r diben hwn mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gennych ar y ffurflen hon i atal a darganfod twyll. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus at y dibenion hyn.**
**Mae rhagor o wybodaeth ar wefan y Cyngor neu drwy gysylltu â'r adran hon.**

Annwyl Syr/Madam,

Gan eich bod yn bwriadu archebu prawf Tacsi/Cerbyd Hurio Preifat ar gyfer eich Cerbyd yn Nepo’r Cyngor, rwy’n ysgrifennu atoch i adael i chi wybod bod yr Orsaf Brofi yn parhau i fod ar agor ar gyfer Prawf Tacsi a Thacsi/MOT. Fodd bynnag, sylwer beth ddylech chi ei wneud o dan yr amgylchiadau canlynol: -

## Os oes gennych chi neu rywun yr ydych yn byw gyda nhw symptomau coronafeirws

Os yw eich Prawf Tacsi i'w gynnal tra byddwch yn aros gartref oherwydd bod gennych chi neu rywun sy'n byw gyda chi symptomau'r coronafeirws (hunanynysu), dylech gysylltu â'r Adain Drwyddedu ar unwaith ar y rhifau isod i drefnu dyddiad arall ar gyfer eich prawf tacsi ar ôl i'ch cyfnod hunanynysu ddod i ben.

## Os ydych chi'n agored iawn i niwed oherwydd coronafeirws

Rhaid i chi beidio â mynd â'ch cerbyd ar gyfer ei Brawf os ydych yn agored iawn i niwed o coronafeirws. Dylech gysylltu â'r Adain Drwyddedu ar unwaith ar y rhifau isod i ail-archebu eich prawf.

## Os nad ydych yn hunanynysu

Ewch o hyd i’ch Prawf Tacsi yn Nepo'r Cyngor.

**Os oes angen rhagor o wybodaeth neu ganllawiau arnoch, cysylltwch â'r Tîm Trwyddedu ar y rhifau a restrir isod.**

### Rhifau Cyswllt y Swyddfa Drwyddedu:-

**Justin Power 01267 228932**
**Rhian Griffiths 01267 228720**
**Susannah Routledge 01267 228723**